# Rôl a Dyletswyddau'r Cynghorydd Cyfreithiol

## Penodi Cynghorwyr Cyfreithiol

Mae adran 23D Deddf Optegwyr 1989 yn darparu'r pwerau i benodi cynghorwyr cyfreithiol a'r pwerau i wneud rheolau atodol ynghylch eu swyddogaethau.

Rhaid i Gynghorwyr Cyfreithiol fod ag o leiaf 5 mlynedd o brofiad o ymarfer ac ni chânt fod yn aelodau o'r Cyngor. Cânt eu penodi er mwyn rhoi cyngor i'r Pwyllgorau Apeliadau Addasrwydd i Ymarfer a Chofrestru ar gwestiynau cyfreithiol sy'n codi mewn cysylltiad ag unrhyw fater y mae'r Pwyllgor yn ei ystyried.

## Rôl a Dyletswyddau

Mae'r rhain yn deillio o'r canlynol:

- Y cynllun statudol (a23D o'r Ddeddf a Rheolau FTP 2005)
- Cyfraith achosion rheoleiddwyr gofal iechyd eraill

## Rheolau Addasrwydd i Ymarfer 2005

Mae'r Rheolau'n gwneud darpariaethau penodol mewn perthynas â'r Cynghorydd Cyfreithiol sy'n cynnwys:

- Rheol 41 (rôl a swyddogaeth gyffredinol)
- Rheol 48 (pŵer i holi tystion)
- Rheol 39 (y rôl mewn perthynas â thystion agored i niwed)

## Rôl Oddefol

Dan Reol 41 rhaid i'r Cynghorydd Cyfreithiol:

- Fod yn bresennol ym mhob gwrandawiad
- Cynghori ar gwestiynau a gyfeiriwyd ato/ati gan y Pwyllgor sy'n ymwneud â'r gyfraith, y dystiolaeth a'r weithdrefn
- Pan fydd y Pwyllgor yn gofyn am hynny, rhoi cyngor ar ddrafftio penderfyniadau.

## Rôl Weithredol

Dan Reol 39, mae unrhyw fesurau arbennig y mae'r Pwyllgor yn dymuno eu mabwysiadu er mwyn clywed tystiolaeth gan dyst agored i niwed "yn amodol ar gyngor y cynghorydd cyfreithiol".

Dan Reol 41 rhaid i'r Cynghorydd Cyfreithiol:

- Ymyrryd i atal gwneud camgymeriad cyfreithiol
- Ymyrryd i gywiro afreoleidd-dra yn yr achos
- Sicrhau bod ei gyngor ef/hi yn cael ei gyfleu i'r partïon

Dan Reol 48, gall y Cynghorydd Cyfreithiol ofyn cwestiynau i unrhyw dyst, gyda chaniatâd Cadeirydd y Pwyllgor.

**Cyfraith Achosion**

Mae'r gyfraith achosion bresennol yn dylanwadu ar sut y bydd penderfyniadau Pwyllgor yn cael eu gwneud a bydd yr egwyddorion canlynol yn deillio o gyfraith achosion:

- Cadeirydd y Pwyllgor sy'n rheoli'r achos, nid y Cynghorydd Cyfreithiol
- Y Pwyllgor yw meistr y ffeithiau a'r gyfraith
- Ni chaiff y Cynghorydd Cyfreithiol fod yn gysylltiedig â barnwr mewn treial troseddol
- Fodd bynnag, mae'n ddyletswydd ar y Cynghorydd Cyfreithiol i roi cyngor i'r Pwyllgor ar bob cwestiwn cyfreithiol sy'n ymddangos yn berthnasol i amgylchiadau pob achos a'r cam perthnasol yn yr achos.
- Nid yw'n ddyletswydd ar y Cynghorydd Cyfreithiol i "grynhoi" y ffeithiau cyn i'r Pwyllgor ymneilltuo i wneud ei ganfyddiadau
- Ni ddylai'r Cynghorydd Cyfreithiol fynegi ei hun mewn ffordd sy'n creu'r argraff ynghylch sut y byddai ef/hi yn penderfynu ar yr achos pe baent yn gwneud y penderfyniad
- Dylai'r Cynghorydd Cyfreithiol nodi'n glir mai'r Pwyllgor sydd i benderfynu ar y materion
- Mewn rhai amgylchiadau, dylai'r Cynghorydd Cyfreithiol roi cyngor i'r Pwyllgor ar atebion posibl, nid dim ond gofyn cwestiynau i'r Pwyllgor eu hystyried
- Nid yw cam-gyfeiriad cyfreithiol gan y Cynghorydd Cyfreithiol o reidrwydd yn annilysu penderfyniad y Pwyllgor – mae'n dibynnu ar p'un a yw'r cyngor yn "ddigon arwyddocaol"
- Ni achosir unrhyw ragfarn i'r cofrestrai os yw'r Cynghorydd Cyfreithiol yn rhoi cyngor anghywir ac nad yw'r Pwyllgor yn derbyn y cyngor hwnnw
- Gall y Cynghorydd Cyfreithiol roi arweiniad ar gwestiynau ynghylch strwythur a chyflwyniad rhesymau'r Pwyllgor a'r angen, lle bo hynny'n briodol, i roi rhesymau, ond nid ar y rhesymau eu hunain
- Pryd bynnag y bydd y Cynghorydd Cyfreithiol yn rhoi cyngor i'r Pwyllgor ar wahân i'r partïon, dylid datgan y ffaith bod cyngor o'r fath wedi'i roi, a thelerau hynny, ym mhresenoldeb y partïon ar adeg briodol.
- Mae gan y partïon hawl i wybod am y cyngor a roddwyd gan y Cynghorydd Cyfreithiol a dylid rhoi cyfle iddynt wneud sylwadau ar y cyngor hwnnw cyn i'r Pwyllgor wneud ei benderfyniad.

- Dylai’r Cynghorydd Cyfreithiol gael cyfle i ystyried a ddylid newid ei gyngor ef/hi i’r Pwyllgor yng ngoleuni unrhyw sylwadau a wneir gan y partïon

**Cyngor/Ymyrraeth gan y Cynghorydd Cyfreithiol**

Y meysydd sydd fwyaf tebygol o fod angen cyngor a/neu ymyrraeth gan y Cynghorydd Cyfreithiol yw:

- Gorchmynion Interim (Rheol 19 Rheolau FTP 2005)
- Prawf o wasanaeth/achosion yn absenoldeb y cofrestrai (Rheol 21)
- Ceisiadau i wrando’r achos yn breifat (Rheol 23(2))
- Ceisiadau i newid manylion honiad (Rheol 34)
- Ceisiadau am ohirio (Rheol 35)
- Derbynioldeb tystiolaeth (Rheol 38)
- Cyn i’r Pwyllgor ymneilltuo i wneud canfyddiad ffeithiol (Rheol 50)
- Cyn i’r Pwyllgor ymneilltuo i ystyried sancsiynau (Rheol 54)
- Ceisiadau/materion hawliau dynol i atal achos ar sail oedi neu annhegwch